


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig

## Cais Cynllun Cyflawni Prosiect

## Canllaw sut i lenwi

# Cynnwys

**Gwybodaeth** .......... **4**
**Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein** .......... **5**
Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein .......... 5
Hafan .......... 6
Y Dudalen Ffurflenni .......... 8
**Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Ffurflen Gais Cynllun Cyflawni Prosiect** .......... **9**
Dechrau Cais .......... 9
Parhau â'r Cais / Dechrau Eto .......... 9
**Cyflwyniad** .......... **14**
**Hysbysiad Preifatrwydd** .......... **15**
**Manylion y Busnes/Sefydliad** .......... **16**
**Y Prosiect** .......... **17**
**Y Cydweithredu** .......... **18**
**Y Ffit Strategol** .......... **20**
**Cyflawni Prosiectau** .......... **22**
**Gwerth am Arian** .......... **24**
Gwerth am Arian – Costau Safonol .......... 24
Gwerth am Arian – Cyfraddau Cyflog Safonol .......... 25
Gwerth am Arian – Costau Ansafonol .......... 27
Gwerth am Arian – Crynodeb .......... 29
Coetir a Mawndir .......... 30
**Materion Ariannol a Chydymffurfio** .......... **32**
**Cyllid Ategol** .......... **33**
**Cynaliadwyedd Hirdymor** .......... **34**
**Risg a Rheoli Risg.** .......... **35**
**Dangosyddion a Chanlyniadau** .......... **37**
**Themâu Trawsbynciol** .......... **38**
**Dogfennau Ategol** .......... **39**
**Crynodeb** .......... **40**
Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb .......... 40
**Datganiad ac Ymrwymiadau** .......... **42**
**Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno** .......... **44**
**Ar ôl Cyflwyno'r Datganiad yn Llwyddiannus** .......... **45**
Beth fydd yn digwydd nesaf? .......... 45
**Manylion cyswllt** .......... **46**

**Rhif y Fersiwn: 1**
**Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2024**
**Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru**
**© Hawlfraint y Goron 2024**
**ISBN: 978-1-83715-053-3**

# Gwybodaeth

Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r camau ar gyfer llenwi eich cais ar gyfer Cynllun Cyflawni Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Dim ond i gwsmeriaid rydym wedi dyfarnu Grant Datblygu Prosiect iddynt o dan y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig y bydd y Ffurflen Gais ar gyfer y Cynllun Cyflawni Prosiect ar gael. Sylwch na fydd y ffurflen hon ar gael nes y bydd Llythyr Dyfarnu Grant Datblygu Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig wedi cael ei lofnodi.

Bydd angen ichi lenwi'r ffurflen ar-lein, gan roi manylion eich prosiect i Lywodraeth Cymru a chyflwyno'r dogfennau ategol sydd eu hangen fel y gall eich cais gael ei arfarnu'n llawn, er mwyn ystyried contract a dyfarnu grant.

Darllenwch y canllawiau hyn yn ofalus.  Bydd angen ichi hefyd gyfeirio at y Nodiadau canllaw.

Rhaid cyflwyno ceisiadau'n electronig drwy RPW Ar-lein.  Bydd y cais ar-lein ar gael i'w gwblhau ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgeisio. Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r cais yw 31 Mawrth 2025.  Ni chynigir unrhyw estyniadau.

Nid oes rhaid aros tan ddiwedd y cyfnod ymgeisio cyn cyflwyno ceisiadau. Rydym yn eich cynghori'n gryf i gyflwyno eich cais cyn gynted â phosibl.

Mae angen i ymgeiswyr ateb cwestiynau am:

- Y Busnes / Sefydliad
- Y Prosiect
- Y Cydweithredu
- Y Ffit Strategol
- Cyflawni'r Prosiect
- Gwerth am Arian
- Materion Ariannol a Chydymffurfio
- Cyllid Ategol
- Cynaliadwyedd Hirdymor
- Risg a Rheoli Risg.
- Dangosyddion a Chanlyniadau
- Themâu Trawsbynciol

Yn ogystal â chwblhau'r cais llawn ar-lein, bydd angen ichi gyflwyno'r dogfennau ategol perthnasol ar-lein i'w gwerthuso gan Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau:  Nodir y rhain ar y dudalen Dogfennau Ategol tudalen 31.

Ni fydd yr asesiad yn dechrau nes bod y cais a'r HOLL ddogfennau ategol yn dod i law Llywodraeth Cymru. Cewch gyflwyno dogfennau a thystiolaeth arall yn ogystal â'r uchod er mwyn cefnogi eich cais.

Sylwer: Os cewch broblemau gydag RPW Ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Yn ôl at y Cynnwys

# Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid ichi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru i ddysgu mwy.  Mae modd gwneud y rhan fwyaf o'r newidiadau i fanylion busnes ar-lein.  Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau arwyddocaol.  I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

**Tudalen Fewngofnodi Porth y Llywodraeth**

Mewngofnodwch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein – rhowch eich ID Defnyddiwr a'ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi.**





Os ydych yn cael problem neu'n ei chael yn anodd mynd i'ch cyfrif ar-lein, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.


Yn ôl at y Cynnwys

# Hafan


Pan fyddwch wedi mewngofnodi yn eich cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein.




Yn yr adran Dechrau Ffurflen ar waelod y sgrin Hafan, cliciwch ar enw’r cynllun rydych am wneud cais amdano.  Bydd y cais ar gyfer Cynllun Cyflawni Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig  ar gael yma tan ddyddiad cau'r cyfnod ymgeisio.




**Neu** gallwch glicio ar y tab **'Ffurflenni'** ar dudalen hafan RPW Ar-lein, fel y gwelwch isod:





Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen 'Ffurflenni'.

I newid yr iaith ar unrhyw adeg, cliciwch ar y botwm **English** ar gornel dde uchaf sgrin.  Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis iaith eich ffurflen gais ar gyfer Cynllun Cyflawni Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Y Dudalen Ffurflenni

Pan fyddwch wedi clicio ar y tab ‘Ffurflenni’, fe welwch y ffurflenni sydd ar gael ichi eu llenwi.




Sgroliwch i lawr y dudalen i ddewis y ffurflen rydych am ei chyflwyno.





Yn ôl at y Cynnwys

# Y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Ffurflen Gais Cynllun Cyflawni Prosiect

## Dechrau Cais

Pan fyddwch wedi darllen Llyfryn Rheolau Cyffredinol y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn Grantiau a thaliadau gwledig, a Chanllawiau'r Cynllun Cyflawni Prosiect, i ddechrau ar eich ffurflen gais cliciwch ar y botwm **Dechrau** .




Mae'r dudalen hon yn rhoi rhywfaint o wybodaeth ichi cyn dechrau ar y cais. Mae dolen ynddi i'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid os oes angen, ynghyd â'ch Manylion Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein sydd gennym ar eich cyfer. Darllenwch nhw a'u newid cyn dechrau ar eich cais os ydynt yn anghywir.


## Parhau â'r Cais / Dechrau Eto

Pan fyddwch wedi dechrau llenwi eich cais, gallwch ddewis ei adael a dod yn ôl ato nes ymlaen. Os ydych yn dod yn ôl at gais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, cliciwch ar Parhau ar y sgrin hon (y botwm glas ar waelod y sgrin), neu os ydych am ddechrau eto, cliciwch ar y botwm Dechrau Eto a welwch ar y sgrin lun hwn:




Cofiwch – os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn ailosod yr holl gwestiynau a atebwyd gennych a bydd yn cael gwared ar yr holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi.

Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar Ydw, neu fel arall cliciwch ar Na, fel y gwelwch ar y sgrin lun hwn:




Os ydych wedi cyflwyno mwy nag un cais llwyddiannus am Grant Datblygu Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig, byddwch yn gallu dechrau a diwygio cais Cynllun Cyflawni Prosiect ar gyfer pob un ar wahân.

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 232 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

# Dewiswch Gais dewis cais neu hawliad

**Math o Gais**
INRS - Cynllun Cyflawni Prosiect


**Ceisiadau drafft**
Mae gennych y Ceisiadau Drafft canlynol:

| Enw'r Cais | Diweddarwyd ddiwethaf | Diweddarwyd gan | |
|---|---|---|---|
| | | Agent | Parhau â Chais |

**Ceisiadau sydd ar Gael**
Cliciwch 'Dechrau Cais Newydd' os ydych am ddechrau un o'r ceisiadau canlynol sydd ar gael i chi:

| Enw'r Cais |
|---|
| |

Dechrau Cais Newydd | Yn ôl



Taliadau Gwledig Cymru
Ar-Lein
Online
Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 232 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn i gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **INRS - Cynllun Cyflawni Prosiect.** Dewiswch un o'r canlynol i ddechrau'r cais.

Dewiswch os gwelwch yn dda

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn . Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau ei llenwi'r ffurflen cyn

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **INRS - Cynllun Cyflawni Prosiect** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer
**Enw Masnachu**
**Cyfeiriad**
**Côd Post**
**Rhif Ffôn**
**Cyfeiriad e-bost**
**Nifer y Partneriaid**

Dewisiadau Ar-lein
**E-bost ynte neges destun (SMS)** Ebost
**Cyfeiriad e-bost**
**Rhif ffôn symudol**


Dechrau | Canslo

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cyflwyniad

Dyma'r dudalen gyflwyno sy'n rhoi gwybodaeth am Gais Cynllun Cyflawni Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.  I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth sydd ar y dudalen hon, darllenwch Lyfryn Rheolau Cyffredinol y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn yr adran Grantiau a thaliadau gwledig ar wefan Llywodraeth Cymru.

Ar y chwith, fe welwch restr o’r adrannau gwahanol.  Mae croes goch yn dangos naill ai nad ydych wedi agor yr adran eto neu eich bod wedi gwneud camgymeriad yn yr adran/adrannau. Bydd tic gwyrdd yn dangos eich bod wedi llenwi’r adran ac nad ydym yn gallu gweld unrhyw wallau. Mae botymau llywio ar frig ac ar waelod y ffurflen.  Hefyd, os ydych am newid yr iaith rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, mae botwm ichi allu gwneud hynny yng nghornel chwith isaf y sgrin, fel y gwelwch ar y sgrin lun isod:



**Adnoddau Naturiol Integredig**

Mae rhwng **£250,000** a **£1,000,000** ar gael drwy'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Grantiau Cyflawni Prosiect, i gefnogi gweithredu ar y cyd ar raddfa tirwedd.

Bydd y cynllun yn cefnogi grwpiau o ffermwyr, coedwigwyr, porwyr a rheolwyr tir eraill i ddatblygu cynlluniau gyda chymorth asiantaethau eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff anllywodraethol amgylcheddol, elusennau, ymddiriedolaethau ac awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol; adfer ein nodweddion a'n prosesau naturiol, gwella bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau ar draws daliadau unigol a'r dirwedd ehangach.

Bydd Cynlluniau Cyflawni Prosiect INRS a gyflwynir yn cael eu hasesu yn erbyn y canllawiau a'r meini prawf sgorio y bydd prosiectau'n eu derbyn os ydynt yn llwyddo i sicrhau'r Grant Datblygu. Byddant hefyd yn cael eu hasesu ar sail cydweddiad strategol a gofynion y cynllun, a amlinellir yn Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig: canllawiau ar gynlluniau cyflawni prosiect ac, yn amodol ar y gyllideb, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cynnig cyllid Grant Cyflawni Prosiect INRS yn nhrefn teilyngdod.


Mae potensial i gael effaith sylweddol a chadarnhaol drwy brosiectau cydweithredol ar raddfa tirwedd ac rydym am gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir eraill i ddatblygu cynlluniau gyda'i gilydd. Mabwysiadu dull cydweithredol a hyblyg o gefnogi gweithredu ar lefel leol sy'n gwneud lle i fyd natur ochr yn ochr â chynhyrchu bwyd i ymateb i heriau'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur.

Cyn cwblhau'r Cynllun Cyfnod Cyflawni, darllenwch ganllawiau'r ganllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig. I gael help i lenwi'ch cais, gweler y canllawiau Sut i Lenwi.

Os ydych yn cael unrhyw broblemau wrth lenwi'r cynllun cyflawni, dylech gysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid drwy'ch cyfrif RPW Ar-lein neu drwy ffonio 0300 062 5004.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Pan fyddwch wedi darllen yr wybodaeth cliciwch ar y botwm **Nesaf.**





Yn ôl at y Cynnwys

# Hysbysiad Preifatrwydd

Ar y dudalen Hysbysiad Preifatrwydd, rydym yn esbonio eich hawliau a'r ffordd y bydd angen inni ddefnyddio eich gwybodaeth i brosesu eich cais.  Rhaid ichi ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd.




Pan fyddwch wedi darllen yr hysbysiad, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




Yn ôl at y Cynnwys

# Manylion y Busnes/Sefydliad

Mae'r adran hon o'r ffurflen yn ymwneud â manylion y busnes / sefydliad sy'n gwneud cais . Bydd wedi'i llenwi ymlaen llaw â'r manylion a gyflwynwyd yn eich Cais am Grant Datblygu Prosiect. Gwnewch yn siŵr eich bod yn diweddaru unrhyw wybodaeth sydd ar goll neu'n anghywir.

Yn yr adran hon bydd yn rhaid ichi nodi'r canlynol:

Y math o fusnes / sefydliad mae'r cais ar ei gyfer.


A yw’r busnes /sefydliad yn masnachu o dan enw arall?

Rhifau cyfeirnod perthnasol y busnes / sefydliad h.y. Rhif Cwmni, Rhif TAW, Rhif Elusen a Rhif Cofrestru Cwmni Cydfuddiannol.

A yw'r busnes / sefydliad yn aelod o grŵp o gwmnïau; a oes ganddo gyfranddalwyr/cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr; a yw'n is-gwmni sy'n eiddo llwyr i brif gwmni.

A yw’r busnes / sefydliad yn fusnes newydd

Maint y busnes / sefydliad.


INRS - Cynllun Cyflawni Prosiect

Help

- Cyflwyniad
- Hysbysiad Preifatrwydd
- Manylion y Busnes/Sefydliad
- Y Prosiect
- Y Cydweithio
- Ffit Strategol
- Cyflawni'r Prosiect
- Gwerth am Arian
- Ariannol a Chydymffurfio
- Cyllid Ategol
- Cynaliadwyedd Hirdymor
- Cyflawni - Risg a Rheoli Risg
- Dangosyddion a Chanlyniadau
- Themâu Trawsbynciol
- Tystiolaeth ddogfennol
- Crynodeb

Printio | English

Manylion y Busnes/Sefydliad

Yn ôl | Safio | Nesaf

*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â * .*

Cofnodwyd y Manylion Busnes/Sefydliad canlynol ar eich **Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig - Cais am Grant Datblygu Prosiect**. Newidiwch hwn i ddangos unrhyw wybodaeth sydd ar goll neu'n anghywir.

Ar gyfer pa fath o Fusnes/Sefydliad y mae'r cais hwn?*

- Unig Fasnachwr
- Partneriaeth
- Corff sector cyhoeddus
- Cwmni Cydweithredol neu Gydfuddiannol neu Gymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus
- Elusen
- Cyngor Tref / Cymuned
- Grŵp Cymunedol Lleol
- Awdurdod Lleol
- Llywodraeth Cymru
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Prifysgol
- Cymdeithas anghorfforedig
- Cymdeithas gorfforedig
- Sefydliad nid-er-elw
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig
- Sefydliad Anllywodraethol
- Ymddiriedolaeth
- Cwmni Cyfyngedig Drwy Warant
- Arall

Os yw'r busnes yn gwmni cyfyngedig, dylech anfon copi o'r Memorandwm ac Erthyglau.

A yw'r busnes/sefydliad yn masnachu dan enw arall?* Ydy / Nac ydy

**Busnes/Sefydliad**

Rhowch yr holl Gyfeirnodau Busnes/Sefydliad sy'n berthnasol:

Rhif y Cwmni

Rhif TAW

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Y Prosiect


Mae'r rhan hon o'r ffurflen yn ymwneud â manylion y prosiect.  Bydd wedi'i llenwi ymlaen llaw â'r manylion a gyflwynwyd yn eich Cais am Grant Datblygu Prosiect.

Yn y 'Disgrifiad Prosiect' bydd angen ichi ychwanegu rhagor o wybodaeth at yr hyn a roddwyd yn y Cais am Grant Datblygu Prosiect, gan nodi:

- beth rydych yn cynnig ei wneud
- ble rydych yn bwriadu gwneud hyn
- pam mae angen y prosiect


Mae modd estyn y blwch testun a chaniateir hyd at 8000 o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.  Bydd pob blwch testun drwy gydol y cais yn cael ei gyfyngu i nifer benodol o nodau.

Sylwch, os byddwch yn defnyddio unrhyw nodau annilys mewn unrhyw flwch testun e.e. '&', gofynnir ichi newid y rhain cyn y gallwch gyflwyno'r cais.




Ychwanegwch ddyddiad dechrau a dyddiad gorffen prosiect.  Sylwch fod rhaid cwblhau prosiectau Cynllun Cyflawni Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig erbyn 31 Mawrth 2028 fan bellaf.

Diweddarwch y manylion cyswllt os nad yw'r rhain bellach yn gywir.




Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac nid fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Y Cydweithredu

Mae'r rhan hon o'r ffurflen yn ymwneud â'r cyfranogwyr sy'n cydweithredu ar y prosiect . Bydd wedi'i ei llenwi ymlaen llaw â'r manylion a gyflwynwyd yn eich Cais am Grant Datblygu Prosiect.

Os yw'r rhestr o ffermwyr neu sefydliadau eraill sy'n cydweithredu ar y prosiect wedi newid, diweddarwch yr adran hon i adlewyrchu hynny.


Os hoffech ychwanegu ffermwr / ffermwyr, cliciwch ar 'Ychwanegu Ffermwr' a llenwch y manylion perthnasol.




Gallwch ddiwygio unrhyw fanylion ffermwyr sydd wedi'u llenwi ymlaen llaw drwy glicio 'Addasu' ar bwys y Cyfeirnod Cwsmer penodol (CRN).




Gallwch hefyd ddileu unrhyw ffermwyr o'r manylion wedi'u llenwi ymlaen llaw drwy glicio 'Dileu' ar bwys y CRN penodol.




Yr un broses sydd er mwyn ychwanegu / diwygio neu ddileu unigolion neu sefydliadau eraill sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cyflawni Prosiect.




Yn yr adran hon bydd angen ichi hefyd gadarnhau a yw CRN yr Ymgeisydd Arweiniol a roddwyd i ddechrau ar gyfer y prosiect cydweithredol yn dal i fod yn gywir.  Os na, nodwch CRN yr Ymgeisydd Arweiniol newydd.




Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon – ni fyddwch yn cael cyflwyno'r ffurflen heb wneud hynny.


Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

[Yn ôl at y Cynnwys]

# Y Ffit Strategol


Mae'r adran hon o'r ffurflen yn gofyn am fanylion y ffordd y bydd eich prosiect yn cynnal camau gweithredu sy'n gwneud gwahaniaeth i amrediad o flaenoriaethau ac ymrwymiadau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, polisïau neu gynlluniau cenedlaethol a lleol.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dewis o leiaf bedwar canlyniad ac yn egluro sut y bydd y prosiect yn cyflawni'r canlyniadau a ddewisir yn y blwch testun.




Rhowch fanylion yn y blychau testun eraill yn yr adran hon mewn perthynas â'r canlynol


- egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- effaith y prosiect ar yr amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd, ac
- unrhyw ddulliau newydd neu arloesol i'w mabwysiadu gan y partneriaid yn y prosiect cydweithredu.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb eu hateb.


Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Cyflawni Prosiectau


Mae'r adran hon o'r ffurflen yn gofyn am fanylion y ffordd rydych yn bwriadu cyflawni'r prosiect, a'r adnoddau (rolau a chyfrifoldebau) sydd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith a'i reoli.




Pan fyddwch wedi ateb y ddau gwestiwn cyntaf, bydd angen ichi ychwanegu Gweithgareddau’r Prosiect.  Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd** i fynd yn eich blaen.




Pan fyddwch wedi clicio ar y botwm **Ychwanegu Gweithgaredd**, fe welwch y dudalen ganlynol:




Yma, bydd angen ichi nodi enw’r Gweithgaredd, disgrifiad ohono a’i ddyddiadau dechrau a gorffen.  I nodi’r dyddiadau, cliciwch ar y botwm y **Calendr**. Pan fyddwch wedi llenwi'r holl wybodaeth, cliciwch naill ai ar y botwm **Cadw ac Ychwanegu Un Arall** (er mwyn ychwanegu

gweithgaredd arall), neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** (os ydych wedi gorffen). Gallwch gofnodi cynifer o eitemau ag a fynnwch:

Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'r ffurflen heb eu hateb.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Gwerth am Arian


Ar y dudalen Gwerth am Arian, byddwch yn rhoi gwybodaeth am gostau'r Prosiect. Mae'n rhaid i'r holl gostau gael eu cysylltu'n uniongyrchol â gweithgareddau'r prosiect. Mae'r adran hon wedi'i rhannu'n sawl adran.

# Gwerth am Arian – Costau Safonol


Mae'r adran hon yn dangos y rhestr o eitemau cost safonol sydd ar gael o dan y cynllun. Cyn dewis eich eitemau, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen Canllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cynllun Cyflawni Prosiect, sy'n rhoi rhestr o eitemau cyfalaf cymwys, y fanyleb a'r gyfradd dalu ar gyfer pob opsiwn.




Cliciwch ar y botwm Ychwanegu Eitem i weld cwymplen o'r holl eitemau sydd ar gael.




Pan fyddwch wedi dewis eitem, bydd angen nifer. Os ydych yn gwybod manylion penodol y parsel cae ar gyfer yr eitem, gallwch ddewis 'Ydw' a gofynnir ichi ychwanegu Cyfeirnod y Dalen (dwy lythyren wedi'u dilyn gan bedwar rhif) a Rhif y Cae (pedwar rhif). Os nad yw'r eitem yn ymwneud â pharsel cae penodol neu os nad ydych yn gwybod manylion parseli cae ar y pryd, dewiswch 'Na'. Sylwch y bydd angen ichi gyflwyno manylion parseli cae pan fo hynny'n berthnasol cyn gwneud cais am yr eitem.




Pan fyddwch wedi nodi'r nifer ac wedi nodi a oes gennych fanylion y parseli cae, cliciwch ar y botwm 'Cadw a Dychwelyd' i ddychwelyd i'r dudalen Costau Safonol.

Gallwch barhau i ychwanegu eitemau yn ôl yr angen.

Er mwyn newid nifer yr eitemau neu fanylion parsel cae, cliciwch 'Addasu' ar bwys yr eitem.  I ddileu'r eitem, dewiswch 'Dileu'.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb wneud hynny.


Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Gwerth am Arian – Cyfraddau Cyflog Safonol


Mae'r adran hon yn dangos y rhestr o gyfraddau cyflog safonol sydd ar gael o dan y cynllun.  Cyn dewis eich eitemau, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen Canllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cynllun Cyflawni Prosiect, sy'n rhoi rhestr a rhagor o fanylion mewn perthynas â phob un o'r costau staff safonol.




Cliciwch ar y botwm 'Ychwanegu Eitem' i weld cwymplen o'r holl rolau a chyfraddau cyflog sydd ar gael.




Pan fyddwch wedi dewis eitem, bydd angen nodi nifer yr oriau. Bydd angen ichi hefyd ychwanegu manylion ar gyfer cyfradd y cyflog a nifer yr oriau a nodwyd. Dylai hyn adlewyrchu'r manylion a roddwyd yn yr adran Cyflawni Prosiectau.




Pan fyddwch wedi nodi'r 'Nifer' a 'Manylion yr Eitem' cliciwch ar y botwm 'Cadw a Dychwelyd' i ddychwelyd i'r dudalen Cyfraddau Cyflog Safonol.

Gallwch barhau i ychwanegu eitemau yn ôl yr angen.

Er mwyn newid nifer yr oriau neu fanylion yr eitem, cliciwch 'Addasu' ar bwys yr eitem. I ddileu'r eitem, dewiswch 'Dileu'.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'r ffurflen heb wneud hynny.


Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




Yn ôl at y Cynnwys

# Gwerth am Arian – Costau Ansafonol

Mae'r adran hon yn dangos y rhestr o eitemau buddsoddi cost ansafonol sydd ar gael o dan y cynllun.  Cyn dewis eich eitemau, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen Canllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cynllun Cyflawni Prosiectau.





Cliciwch ar y botwm Ychwanegu Eitem i weld cwymplen o'r holl eitemau ansafonol sydd ar gael.




Pan fyddwch wedi dewis eitem, bydd angen rhoi amcangyfrif o gyfanswm cost yr eitem.  Os yw'r eitem yn ymwneud â pharsel cae penodol a'ch bod yn gwybod manylion parsel y cae, gallwch ddewis 'Ydw' a gofynnir ichi ychwanegu Cyfeirnod y Dalen (dwy lythyren wedi'u dilyn gan bedwar rhif) a Rhif y Cae (pedwar rhif).  Os nad yw'r eitem yn ymwneud â pharsel cae penodol, neu os nad ydych yn gwybod manylion parseli cae ar y pryd, dewiswch 'Na'.  Sylwch y bydd angen ichi gyflwyno manylion parseli cae pan fydd hynny'n berthnasol cyn gwneud cais am yr eitem.

Bydd angen ichi hefyd ychwanegu manylion h.y. dadansoddiad o'r gost amcangyfrifedig y gofynnwyd amdani.



Pan fyddwch wedi nodi'r 'Cyfanswm Cost Amcangyfrifedig ac wedi nodi a oes gennych fanylion y parseli cae ac wedi rhoi 'Manylion yr Eitem', cliciwch ar y botwm 'Cadw a Dychwelyd' i ddychwelyd i'r dudalen Costau Safonol.

Gallwch barhau i ychwanegu eitemau yn ôl yr angen.

Er mwyn diwygio'r 'Cyfanswm Cost Amcangyfrifedig' neu 'Manylion Eitem', cliciwch 'Addasu' ar bwys yr eitem.  I ddileu'r eitem, dewiswch 'Dileu'.




Os yw eich prosiect yn cynnwys costau ansafonol, bydd angen ichi ddilyn y gweithdrefnau caffael a thendro a rhaid ichi esbonio sut rydych yn bwriadu dilyn y gweithdrefnau hynny o fewn amserlenni priodol.

Nid oes rhaid ichi fod wedi cael dyfynbrisiau ar adeg cyflwyno'r cais; fodd bynnag, bydd angen cyflwyno tystiolaeth o ddyfynbrisiau cyn hawlio am bob eitem gwario.

Ar gyfer eitemau gwerth llai na £1,000 nid oes angen dyfynbrisiau; ar gyfer eitemau gwerth rhwng £1,000 a £4,999 mae angen un dyfynbris; ac ar gyfer eitemau gwerth £5,000 neu fwy mae angen tri dyfynbris.

Rhaid i bob ymgeisydd gyfeirio at Grantiau Gwledig Llywodraeth Cymru – Canllawiau Tendro Cystadleuol sydd ar gael ar y ddolen a ganlyn Grantiau Gwledig: Canllawiau Tendro Cystadleuol, a chydymffurfio â'r canllawiau hynny.

Yr ymgeisydd sy'n gyfrifol am sicrhau bod y broses tendro cystadleuol yn cael ei dilyn yn gywir, ei bod yn cael ei chofnodi'n llawn a bod y dogfennau hynny ar gael os gwneir cais i'r perwyl hwnnw.

Mae cryn risg y bydd y grant yn cael ei adennill, naill ai'n llawn neu'n rhannol, os na ddilynir y broses tendro cystadleuol yn gywir ac os na chedwir y dogfennau ar ei chyfer.

Bydd gwiriadau arfarnu yn y dyfodol o'r holl ddyfynbrisiau a gyflwynir yn cynnwys y canlynol:

- Cydymffurfio â gweithdrefnau a gofynion Tendro Cystadleuol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru;
- Rhesymoldeb costau
- Y rhesymau a'r sail resymegol a roddwyd gan yr ymgeisydd os nad y dyfynbris rhataf yw'r dyfynbris a ffefrir;
- Cymaroldeb ac amseroldeb y dyfynbrisiau;
- Ymchwiliadau pellach gyda'r ymgeisydd a/neu'r cyflenwr gan Lywodraeth Cymru os nodir unrhyw risg neu anghysondeb yn ystod yr arfarniad;

Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb wneud hynny.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Gwerth am Arian – Crynodeb

Yn yr adran hon bydd angen ichi egluro sut yr ystyrir bod costau'r prosiectau'n rhesymol (gan ystyried cwmpas, maint ac amserlenni'r cynigion);

Byddwch hefyd yn gallu gweld crynodeb o'r holl gostau wedi'u cynnwys yn y cais. Sylwch fod rhaid i uchafswm gwerth y grant fod o leiaf £250,000. Os bydd uchafswm gwerth y grant yn fwy na £1,000,000, byddwch yn cael gwybod y bydd uchafswm y grant y gellir ei dalu'n cael ei gapio ar £1,000,000.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb wneud hynny.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)


# Coetir a Mawndir

Cyfeiriwch at Ganllawiau'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig – Cynllun Cyflawni Prosiect i gael rhagor o fanylion am Greu Coetir ac Adfer Mawndir.

Os yw'r prosiectau'n cynnwys plannu coetir neu adfer mawndir, dylech nodi hyn yn yr adran hon.

Os byddwch yn nodi bod y prosiect yn cynnwys plannu coetir, rhaid ichi nodi manylion y plannu arfaethedig, gan gynnwys y CRNau / lleoliad y plannu.

Os byddwch yn nodi bod y prosiect yn cynnwys Adfer Mawndir, rhaid ichi nodi manylion yr adfer mawndir arfaethedig, gan gynnwys y CRNau / lleoliadau.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau. Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'r ffurflen heb wneud hynny.


Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Materion Ariannol a Chydymffurfio

Yn yr adran hon bydd angen ichi ddisgrifio sut rydych yn bwriadu ariannu'r buddsoddi ar wahân i'r grant, a nodi unrhyw gyfraniadau arian cyfatebol ehangach gan sefydliadau partner. Bydd angen egluro'r angen am y grant y gofynnir amdano. Bydd angen egluro'r mecanwaith ar gyfer dosbarthu'r arian grant ar gyfer cyflawni'r prosiect hefyd.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'r ffurflen heb wneud hynny.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Cyllid Ategol

Mae'r adran yn archwilio rhaglenni gwaith ategol a fydd yn gwella'r prosiect.  Rhowch fanylion unrhyw waith ategol, prosiectau neu gynlluniau ehangach, cyllid ychwanegol a/neu gyfraniadau o fathau eraill gan sefydliadau partner. Dylech egluro'r camau gweithredu a'r mewnbynnau ychwanegol ynghyd â'r canlyniadau a'r buddion canlyniadol.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'r ffurflen heb wneud hynny.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Cynaliadwyedd Hirdymor

Mae'r adran hon yn ymwneud â chynaliadwyedd y prosiect y tu hwnt i amserlen y prosiect.  Dylech roi manylion y strategaeth ymadael ar ôl dyddiad gorffen y prosiect, ac opsiynau ar gyfer parhau i gyflawni ar ôl i'r grant ddod i ben.

Rhowch hefyd fanylion unrhyw adnoddau ariannol y tu hwnt i'r amserlenni cyllido.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb wneud hynny.

Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.




[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Risg a Rheoli Risg.

Ar y dudalen Risg a Rheoli Risg bydd angen ichi roi crynodeb yn y tabl o'r pum risg mwyaf o leiaf a allai effeithio ar eich gallu i gyflawni'r prosiect a sicrhau allbynnau ac amcanion y prosiect. Bydd hynny'n cynnwys:


- Y risg a pha mor debygol yw hi o ddigwydd yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect.
- Beth fyddai'n digwydd i'r prosiect pe bai hyn yn digwydd.
- Pa gamau y gellir eu cymryd i geisio atal hyn rhag digwydd a beth gellir ei wneud i leihau'r effaith ar y prosiect pe bai'n digwydd.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon a chewch ddim cyflwyno'r ffurflen heb ychwanegu o leiaf pum risg.





Cliciwch ar **Ychwanegu Risg** i ddechrau nodi eich risg cyntaf.

Wrth glicio arno, fe welwch y sgrin cofnodi a ddangosir yn y sgrin lun isod:




Pan fyddwch wedi cofnodi'r holl wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Cadw ac Ychwanegu Un Arall** er mwyn ychwanegu risg arall, neu'r botwm **Cadw a Dychwelyd** os ydych wedi gorffen.

Bydd angen ichi gofnodi o leiaf pum risg gwahanol.  Os na fyddwch yn nodi o leiaf pump, fe welwch neges gwall ac ni fydd yr adran hon yn ymddangos fel adran sydd wedi'i chwblhau, fel y gwelwch ar y sgrin lun isod:




Pan fyddwch wedi ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Dangosyddion a Chanlyniadau

Mae’n ofynnol i bob prosiect sy'n derbyn cymorth adrodd ar y cynnydd i Lywodraeth Cymru yn erbyn nifer o Ddangosyddion Perfformiad y cytunir arnynt.


Bydd angen ichi ddewis o leiaf pum Dangosydd Gweithgaredd Dros Dro o'r gwymplen.



Pan fyddwch wedi dewis Dangosydd Gweithgaredd Dros Dro penodol, bydd tabl o ddangosyddion perthnasol yn ymddangos. Cliciwch ar 'Addasu' i nodi gwerth targed ar gyfer pob un o'r dangosyddion hyn sy'n berthnasol i'r prosiect.  Os nad yw'r dangosydd yn berthnasol rhowch sero.

Pan mai dim ond un dangosydd sy'n gysylltiedig â Dangosydd Gweithgaredd Dros Dro, ni ellir nodi targed o sero.


Byddwch hefyd yn cael rhagor o gwestiynau i'w hateb.  Mae'r rhain yn orfodol hyd yn oed os dewiswch darged o sero – yn yr achos hwn rhaid ichi egluro pam nad yw'r dangosydd yn berthnasol yn y blwch 'Rhowch fanylion' ac Amherthnasol ar gyfer y blychau eraill.




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb wneud hynny.

Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**





Yn ôl at y Cynnwys

# Themâu Trawsbynciol

Ar y dudalen Themâu Trawsbynciol byddwch yn rhoi tystiolaeth o sut mae'r Prosiect arfaethedig yn cyfrannu at themâu trawsbynciol.  Yn yr adran hon mae angen ichi egluro sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at o leiaf tair o'r themâu trawsbynciol canlynol:

- Cyfle Cyfartal a Phrif Ffrydio Rhywedd;
- Datblygu Cynaliadwy
- Trechu Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol
- Hyrwyddo'r Gymraeg
- Hawliau Plant




Gellir estyn y blychau testun hyd at nifer penodol o nodau.  Sylwch mai dyma nifer y nodau a ganiateir, nid nifer y geiriau.

Rhaid ateb yr holl gwestiynau yn yr adran hon ac ni fyddwch yn cael cyflwyno’r ffurflen heb wneud hynny.


Ar ôl ateb y cwestiynau, cliciwch ar y botwm **Nesaf.**




[Yn ôl at y Cynnwys](#)


# Dogfennau Ategol

Mae'r dudalen hon yn rhoi rhestr o’r holl ddogfennau mae’n rhaid ichi eu cyflwyno gyda’ch cais, ynghyd â rhestr o rai o’r dogfennau eraill y gall fod angen ichi eu cyflwyno i ategu eich cais, gan ddibynnu ar eich prosiect.




Os oes angen gofyn ichi am ragor o wybodaeth, gallai hynny arafu arfarniad y cais, felly rydym yn argymell eich bod yn dilyn y canllawiau yn ofalus er mwyn darparu’r wybodaeth y gofynnir amdani. Ond os bydd unrhyw beth yn aneglur neu os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, fe wnawn ni gysylltu â chi.

Rhaid ichi ddewis o leiaf un ffordd o gyflwyno dogfennau ategol er mwyn symud ymlaen i’r dudalen nesaf.




Pan fyddwch wedi dewis eich atebion, dewiswch y botwm **Nesaf.**





[Yn ôl at y Cynnwys]

# Crynodeb


## Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Bydd yr adran nesaf yn dangos unrhyw wallau yn eich cais, a Chrynodeb o’ch cais.

Mae’r sgrin lun a ganlyn yn dangos y neges a fydd yn cael ei dangos os oes gwallau a byddwn wedi nodi’r gwallau hynny ichi gael eu cywiro:




Mae’r sgrin lun a ganlyn yn dangos y neges a fydd yn ymddangos os nad oes unrhyw wallau:




Ni fydd unrhyw destun y byddwch wedi'i ysgrifennu yn y blychau testun mawr yn ymddangos fan hyn, ond fe'i dangosir yn y crynodeb PDF a anfonir atoch drwy RPW Ar-lein pan fyddwch wedi cyflwyno eich cais yn llwyddiannus.


Pan fyddwch wedi gwirio'r crynodeb a chywiro unrhyw wallau, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.





Yn ôl at y Cynnwys

# Datganiad ac Ymrwymiadau

Rhaid ichi ddarllen yr adran 'Datganiad ac Ymrwymiadau' a welwch yn y sgrin lun isod. Pan fyddwch wedi gwneud hynny, ticiwch y blwch ar waelod y sgrin i gadarnhau eich bod yn cytuno â nhw, fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Pan fyddwch wedi darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau, **ticiwch** y blwch i gadarnhau eich bod wedi eu darllen a'ch bod yn cytuno â nhw.





Cliciwch ar y botwm **Nesaf** i fynd i'r dudalen Cyflwyno.




[Yn ôl at y Cynnwys]

# Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno eich Ffurflen ar gyfer Cynllun Datblygu Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.




Pan fyddwch wedi cyflwyno eich cais, fe welwch y dudalen Cadarnhau Cyflwyno, a gallwch argraffu copi o'r dudalen hon ar gyfer eich cofnodion drwy ddewis y botwm **Argraffu'r Sgrin Hon**.




Nawr gallwch ddewis y botwm **Cyflwyno Dogfennau** er mwyn cael mynd yn syth at eich tudalen Negeseuon ar RPW Ar-lein, neu gallwch ddewis y botwm **Gadael.**

**Sylwer**: Pan fyddwch wedi cyflwyno eich cais, ni allwch newid yr eitemau rydych wedi'u dewis.

[Yn ôl at y Cynnwys](#)

# Ar ôl Cyflwyno'r Datganiad yn Llwyddiannus

Bydd crynodeb o'r Ffurflen Gais rydych wedi'i chwblhau ar gyfer Cynllun Cyflawni Prosiect y Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn cael ei ychwanegu at eich tudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein, o dan y teitl 'Dogfennau wedi'u derbyn gan Taliadau Gwledig Cymru'. Gofalwch fod yr wybodaeth rydych wedi'i chyflwyno'n gywir. Os gwelwch fod gwybodaeth yn anghywir, atebwch y Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted ag y gwelwch wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael problemau neu'n ei chael yn anodd mynd ar ein gwefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

# Beth fydd yn digwydd nesaf?

Pan fyddwch wedi cyflwyno eich cais, bydd yn cael ei werthuso'n llawn er mwyn ystyried cynnig contract. Bydd y broses asesu'n ystyried unrhyw ddogfennau ategol a gyflwynir, pan fo hynny'n briodol.

Fe'ch hysbysir am ganlyniad eich cais drwy eich cyfrif RPW Ar-lein. Os byddwch yn llwyddiannus, cynigir contract ichi a bydd rhaid ichi ei dderbyn neu ei wrthod drwy eich cyfrif ar-lein RPW erbyn y dyddiad a bennir yn eich llythyr cynnig.

Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, rhoddir gwybod ichi drwy eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn y canllawiau, oherwydd y gall peidio â gwneud hynny arwain at oedi wrth werthuso'r cais.

Yn ôl at y Cynnwys

# Manylion cyswllt

## RPW Ar-lein

Ewch i’r gwasanaeth RPW Ar-lein drwy Borth y Llywodraeth yn www.gateway.gov.uk, neu os ydych wedi'ch cofrestru gyda’r gwasanaeth RPW Ar-lein eisoes, ewch iddo drwy **www.cymru.gov.uk/RPWArlein**. Os nad ydych wedi cofrestru eto gydag RPW Ar-lein, ewch i wefan Llywodraeth Cymru am wybodaeth ynghylch sut i gofrestru neu ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Ymholiadau – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Ar gyfer eich holl ymholiadau, cysylltwch â **Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid RPW**
Gallwch ofyn cwestiwn drwy RPW Ar-lein ar unrhyw adeg.

## Mynediad at swyddfeydd Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a’ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn diwallu eich anghenion, cysylltwch â’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Wedyn bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cymryd pob cam posibl i ddiwallu eich anghenion.

## Gwefan Llywodraeth Cymru

I weld yr wybodaeth ddiweddaraf am amaethyddiaeth a materion gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru. Ar y wefan bydd modd cofrestru ar gyfer y llythyr e-newyddion, Gwlad.